OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 214

# Rheoliadau Gofal a Chymorth (Dewis o Lety, Gosod Ffioedd ac Asesiad Ariannol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2017

**Diwygio Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiad Ariannol) (Cymru) 2015**

**4.** Mae Rhan 1 (symiau sydd i'w diystyru) o Atodlen 1 (symiau sydd i'w diystyru wrth gyfrifo incwm) i Reoliadau Gofal a Chymorth (Asesiad Ariannol) (Cymru) 2015(**1**) wedi ei diwygio fel a ganlyn—

(a) yn lle paragraff 16 rhodder—

"**16.** Unrhyw swm a ddiystyrid o dan baragraff 16 o Atodlen 9 i'r Rheoliadau Cymhorthdal Incwm (pensiynau penodedig) ac eithrio paragraff 16(a) ac (cc), ond fel pe bai'r cyfeiriad ym mharagraff 16 o'r Atodlen honno at baragraffau 36 a 37 o Atodlen 9 i'r Rheoliadau Cymhorthdal Incwm yn gyfeiriad at baragraff 46 o'r Atodlen hon.";

(b) ar ôl paragraff 16 mewnosoder—

"**16A.** Unrhyw daliad a geir o dan y Pensiwn Anabledd Rhyfel."

(**1**) O.S. 2015/1844 (Cy. 272).